# Crynodeb o'r ymgynghoriad ar ‘Siarad gyda fi: Cynllun Cyflawni ar gyfer Lleferydd, Iaith a Chyfathrebu 2020-21’

## Adroddiad


Heather Pells


Mai 2020


CMC @Loudoun
Plas Iona
Butetown
Caerdydd
CF10 5HW
Ffôn: 029 2049 9621
E-bost: Sarah.Lloyd-Jones@peopleandworkunit.org.uk
Gwefan: People and Work Unit
Rhif Cofrestru'r Elusen: 515211
Rhif Cofrestru'r Cwmni: 1809654

**CYNNWYS**


TALFYRIADAU .......... 3

CYFLWYNIAD .......... 4

Cwestiwn 1 – Helpu rhieni .......... 4

Cwestiwn 2 – Y galw am wasanaethau lleferydd, iaith a chyfathrebu .......... 5

Cwestiwn 3 – Dull asesu .......... 6

Cwestiwn 4 – Uwchsgilio’r gweithlu .......... 8

Cwestiwn 5 – Llunio polisïau .......... 10

Cwestiwn 6 – Eglurder gwybodaeth .......... 11

Cwestiwn 7 – Amcanion ychwanegol .......... 11

Cwestiwn 8 – Effaith ar y Gymraeg .......... 11

Cwestiwn 9 – Defnyddio’r Gymraeg .......... 12

Cwestiwn 10 – Materion eraill a godwyd .......... 13

## TALFYRIADAU

**ACE:** Profiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod

**ADY:** Anghenion Dysgu Ychwanegol

**CCPLD:** Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant (cymhwyster)

**SIY:** Saesneg fel Iaith Ychwanegol

**BC:** Y Blynyddoedd Cynnar

**ALl:** Awdurdod Lleol

**ThLl neu SALT:** Therapi Lleferydd ac Iaith neu Therapydd Lleferydd ac Iaith

## ADRODDIAD YMGYNGHORI

**CYFLWYNIAD**

*‘Siarad gyda fi’* yw Cynllun Cyflawni drafft Llywodraeth Cymru ar gyfer Lleferydd, Iaith a Chyfathrebu 2020-21. Ei nod yw ysgogi gwelliant yn y ffordd y caiff plant yng Nghymru eu cefnogi i feithrin eu sgiliau lleferydd, iaith a chyfathrebu. Ymgynghorwyd ar y strategaeth drwy ddefnyddio dau ddull: (1) dau weithdy rhanbarthol i randdeiliaid a gynhaliwyd yn Llandudno ac Abertawe yn ystod mis Mawrth 2020; (2) ymgynghoriad ar-lein rhwng 30 Ionawr 2020 a 23 Ebrill 2020.

Cafwyd cyfanswm o 158 o ymatebion: 107 gan unigolion a gymerodd ran yn y gweithdai i randdeiliaid a 51 o ymatebion i'r ymgynghoriad ysgrifenedig. O'r ymatebion ysgrifenedig, roedd un yn adlewyrchu safbwyntiau gwahanol 26 o aelodau staff, gyda phob un yn cael llais a phleidlais ar bob cwestiwn. Mae'r pleidleisiau hyn wedi'u cynnwys yn y dadansoddiad o fewn y tablau.

**CRYNODEB O'R YMATEBION**

**Cwestiwn 1: helpu rhieni**

**1a. Ydych chi'n credu y bydd y camau gweithredu a awgrymir gennym i hyrwyddo negeseuon allweddol ynghylch lleferydd, iaith a chyfathrebu ymhlith rhieni yn eu helpu i ddeall eu rôl wrth feithrin datblygiad iaith cynnar eu plentyn?**

**Tabl 1.**

| YDW | NAC YDW | DDIM YN GWYBOD |
|---|---|---|
| 159 | 11 | 11 |
| 88% | 6% | 6% |

N=181

Roedd mwyafrif helaeth yr ymatebwyr yn cytuno y bydd y dull yn helpu rhieni.

Roedd yr argymhellion yn cynnwys:

- yr angen am ymgyrch gyhoeddusrwydd a hyrwyddo genedlaethol amlweddog, hygyrch a dwyieithog sy'n cynnig negeseuon clir, cyson ac sy'n targedu pob aelod o'r teulu a phob cam plentyndod
- ymgyrch sy'n cydnabod y rhwystrau ychwanegol a wynebir gan rieni ag anghenion lleferydd, iaith a chyfathrebu, cymunedau pobl dduon ac Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig ac allgáu digidol

- cydweithio effeithiol ar draws asiantaethau sy'n galluogi rhannu effaith ac arfer effeithiol yn genedlaethol.

**C1b. Beth yn rhagor y gallai Llywodraeth Cymru ei wneud er mwyn galluogi rhieni i ymgysylltu â'r negeseuon allweddol ynghylch lleferydd, iaith a chyfathrebu?**

Dyma'r argymhellion allweddol:

- yr angen am gynllunio strategol a chyllid i feithrin gallu a chysylltu'r gwaith â meysydd polisi allweddol
- datblygu negeseuon clir, cyson ar draws asiantaethau
- darparu hyfforddiant a chymorth ar draws disgyblaethau'r blynyddoedd cynnar (mewn iechyd ac addysg)
- cymorth i rieni a'r teulu estynedig i nodi cerrig milltir a chamau datblygu lleferydd, iaith a chyfathrebu
- ymgorffori lleferydd, iaith a chyfathrebu yn y cwricwlwm ysgol er mwyn helpu i hysbysu rhieni'r dyfodol
- pwysigrwydd nodi a chynorthwyo rhieni ag anghenion lleferydd, iaith a chyfathrebu; o ddiwylliannau nad ydynt yn rhai gorllewinol; a'r rhai sy'n anodd eu cyrraedd wrth ledaenu negeseuon.

Roedd anghytundeb ynghylch gwneud darpariaeth lleferydd, iaith a chyfathrebu yn gymorth cyffredinol i bawb. Cytunwyd y gall helpu i gael gwared ar stigma ond nododd rhai ymatebwyr ymchwil sy'n dangos y gall ehangu anghydraddoldebau.

**Cwestiwn 2 – Y galw am wasanaethau lleferydd, iaith a chyfathrebu**

**C2a. Ydych chi'n credu y gallai'r gweithgareddau a awgrymir (1.1 – 1.4) sy'n targedu pob rhiant arwain at fwy o alw am wasanaethau lleferydd, iaith a chyfathrebu (megis therapi lleferydd ac iaith) oherwydd cynnydd mewn ymwybyddiaeth?**

**Tabl 2.**

| YDW | NAC YDW | DDIM YN GWYBOD |
|---|---|---|
| 146 | 19 | 16 |
| 81% | 10% | 9% |

N=181

Er bod y mwyafrif llethol o'r ymatebwyr yn cytuno y byddai cyhoeddusrwydd yn arwain at fwy o ymwybyddiaeth a galw, roedd y farn hon yn aml yn amodol:

> *'Rwy'n credu os caiff ei wneud yn iawn bydd rhieni'n ceisio cymorth i helpu eu plentyn gyda lleferydd, iaith a chyfathrebu, ond dros amser os bydd pob parti*

*yn gweithio gyda'r plentyn, gan gynnwys rhieni, yna bydd hyn yn atal yr angen am therapi lleferydd, dim ond pan na fydd pob dull arall wedi creu'r canlyniadau disgwyliedig'*

Ystyriwyd ei bod yn bwysig bod yr ymgyrch yn egluro beth y gall rhieni, gwasanaethau cyffredinol a chymunedol ei wneud.

**C2b. Os bydd yr ymgyrch gyhoeddusrwydd yn cynyddu'r galw am wasanaeth lleferydd, iaith a chyfathrebu, beth y gellid ei wneud i reoli hyn?**

Argymhellwyd y canlynol gan yr ymatebwyr:

- cynllunio strategol a chydweithio gan adeiladu ar gryfderau presennol
- mapio darpariaeth lleferydd, iaith a chyfathrebu a luniwyd yn lleol
- darparu cyllid tymor byr i lenwi unrhyw fylchau yn y ddarpariaeth a chyllid tymor hwy i adeiladu'r gweithlu
- mapio dull 'llwybr' darpariaeth clir er mwyn mynd i'r afael ag anghenion lleferydd, iaith a chyfathrebu mewn darpariaeth gyffredinol i bawb a dim ond yr anghenion mwyaf difrifol a atgyfeirir i wasanaethau therapi lleferydd ac iaith
- ystyried a datblygu mentrau cymunedol effeithiol sy'n cynorthwyo teuluoedd ac sy'n rhoi mynediad hawdd i gyngor, gan gynnwys adeiladu ar waith Dechrau'n Deg
- gwella statws a hyfforddiant gweithlu'r 'blynyddoedd cynnar'
- datblygu ymhellach elfen Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu'r cwricwlwm newydd i ddiwallu anghenion lleferydd, iaith a chyfathrebu

**Cwestiwn 3 - Dull asesu**

**C3a. Ydych chi'n credu y bydd y dull a awgrymir gennym o wella'r ffordd y caiff sgiliau lleferydd, iaith a chyfathrebu eu hasesu yn y blynyddoedd cynnar yn helpu i hwyluso canlyniadau lleferydd, iaith a chyfathrebu gwell i blant a phobl ifanc?**

**Tabl 3.**

| YDW | NAC YDW | DDIM YN GWYBOD |
|---|---|---|
| 143 | 6 | 34 |
| 78% | 3% | 19% |

N=183

Roedd mwyafrif yr ymatebwyr yn cytuno.

Dyma'r argymhellion a wnaed:

- sicrhau bod y cynllun yn glir ynghylch y gwahaniaeth rhwng ‘sgrinio’ ac ‘asesu’
- bod yn glir iawn ynghylch a yw'r bwriad yw cael sgrinio cyffredinol i bawb ai peidio – fel y nodwyd uchod, roedd gwahaniaeth barn ymhlith yr ymatebwyr ynghylch gwerth hyn gyda phryderon am godi pryderon rhieni yn ddiangen ac ychwanegu at lwyth gwaith staff, yn cael eu pwyso yn erbyn manteision nodi'n gynnar
- ystyrir bod pecyn cymorth WellComm yn adnodd sgrinio defnyddiol ond roedd pryderon am effeithiolrwydd yr adnodd ar gyfer rhai plant, er enghraifft plant awtistig
- creu adnodd sgrinio Cymraeg
- datblygu/defnyddio un adnodd sgrinio ar draws pob sector ac ar draws camau datblygu plentyn
- dylai unrhyw asesiad o anghenion hyfforddiant Arolygiaeth Gofal Cymru o ran datblygiad iaith y blynyddoedd cynnar gynnwys Estyn (gan eu bod yn gwneud arolygiadau ar y cyd) a darpariaeth Gymraeg;
- darparu gwybodaeth i rieni am gamau datblygu ‘arferol’.

**C3b. Oes unrhyw beth ar goll o'r dull a awgrymir gennym o wella'r ffordd y caiff sgiliau lleferydd, iaith a chyfathrebu eu hasesu yn y blynyddoedd cynnar y mae angen i ni ei gynnwys?**

Roedd yr argymhellion yn cynnwys:

- dull cyson o sgrinio ledled Cymru sy'n nodi ar ba oedran y dylai ddechrau a sut y dylid ei flaenoriaethu a'i weinyddu
- dylai'r gwaith ychwanegu at y ddarpariaeth bresennol, nid dargyfeirio adnoddau oddi wrthi
- ehangu aelodaeth y Rhwydwaith Rhagoriaeth Glinigol (CEN) i gynnwys swyddogion datblygiad iaith cynnar i gynorthwyo'r broses o gyflwyno'r cynllun cyflawni lleferydd, iaith a chyfathrebu yn strategol
- adnodd sgrinio cyffredin (ar draws asiantaethau) sy'n gyfannol; wedi'i gysylltu â chyfnodau addysg; yn gwbl ddwyieithog; yn cefnogi Saesneg fel Iaith Ychwanegol (SIY); ac yn cydnabod gwahaniaethau mewn normau diwylliannol (e.e. o gwmpas chwarae) – gall hyn olygu edrych y tu hwnt i WellComm
- datblygu cydweithio ar draws asiantaethau gydag adnoddau digonol ar gyfer gweithluoedd

**C.3c. Ydy adnodd sgrinio WellComm mor effeithiol ag y gallai fod yn eich barn chi? Os nad ydy, sut y gellid ei wella?**

**Tabl 4.**

| YDY | NAC YDY | DDIM YN GWYBOD |
|---|---|---|
| 38 | 88 | 55 |
| 21% | 49% | 30% |

N=181

Roedd traean o'r ymatebwyr yn ansicr ynghylch effeithiolrwydd WellComm. Disgrifiwyd ei gryfderau fel darparu man cychwyn da a chyfarwyddiadau clir ar sut i symud ymlaen wrth weithio gyda phlentyn. Y gwendidau a nodwyd yw ei fod ond yn galluogi sgrinio ar bwynt penodol yn hytrach na phroses dros amser (gan beryglu cywirdeb); nad yw ar gael yn Gymraeg; mae'n llai addas i blant SIY neu'r rhai ag ADY eraill; nid yw ei iaith bob amser yn gyfeillgar i blant ac mae'n dibynnu'n ormodol ar brofiad yr ymarferydd ac adborth gan rieni.

Roedd yr argymhellion yn cynnwys:

- os yw'r adnodd WellComm i'w ddefnyddio'n genedlaethol dylai fod yn hygyrch i bawb gan gynnwys gwarchodwyr plant
- dylid cael canllawiau cenedlaethol ynghylch pryd y dylid cynnal y sgrinio

> *'Pa bynnag adnodd a ddewisir mae angen iddo gael ei ddefnyddio ledled Cymru i sicrhau cysondeb. Os bydd plant yn symud rhwng lleoliadau neu ardaloedd bydd adnodd cenedlaethol yn cefnogi'r cyfnod pontio.'*

Rhoddodd yr ymatebwyr restr o ddulliau adnoddau y gellid eu hystyried.

**Cwestiwn 4 – Uwchsgilio'r gweithlu**

**C4a. Ydych chi'n credu y bydd ein camau gweithredu i uwchsgilio'r gweithlu er mwyn diwallu anghenion lleferydd, iaith a chyfathrebu yn golygu y caiff problemau lleferydd, iaith a chyfathrebu eu nodi'n well?**

**Tabl 5.**

| YDW | NAC YDW | DDIM YN GWYBOD |
|---|---|---|
| 147 | 17 | 15 |
| 82% | 10% | 8% |

N=179

Roedd mwyafrif yr ymatebwyr yn cytuno.

Roedd yr argymhellion yn cynnwys:

- canolbwyntio ar gydweithio, gyda chyfleoedd datblygu proffesiynol lleferydd, iaith a chyfathrebu yn cael eu hymestyn ar draws yr holl sectorau perthnasol a'u cyflwyno wyneb yn wyneb neu ar-lein.
- galluogi lleoliadau gofal plant i gael mynediad i hyfforddiant drwy gyllido cyrsiau ac ôl-lenwi staff a chynnig darpariaeth hyblyg
- darparu cymwysterau ar gyfer lleferydd, iaith a chyfathrebu ar gyrsiau CCPLD lefel 2 a 3, yn ogystal â lefel 4.
- rhoi mwy o fanylion am ddarparu datblygu'r gweithlu o fewn y cynllun
- sicrhau bod y datblygiadau'n bodloni gofynion staff sy'n gweithio yn Gymraeg ac yn adlewyrchu amrywiaeth cefndiroedd ieithyddol plant Cymru.

**C4b. Ydych chi'n credu y bydd ein camau gweithredu i uwchsgilio'r gweithlu er mwyn diwallu anghenion lleferydd, iaith a chyfathrebu yn golygu y caiff ymyriadau mwy prydlon eu rhoi ar waith?**

**Tabl 6.**

| YDW | NAC YDW | DDIM YN GWYBOD |
|---|---|---|
| 118 | 12 | 48 |
| 66% | 7% | 27% |

N=178

Roedd dwy ran o dair o'r ymatebwyr yn cytuno, a llawer yn cydnabod budd hyn o ran mynd i'r afael ag anghenion.

Roedd yr argymhellion yn cynnwys:

- gwelliannau i'r seilwaith gan gynnwys buddsoddi yn y gweithlu presennol gydag adnoddau, lefelau a chynnwys hyfforddiant sy'n addas; a sicrhau ymrwymiad gan bob proffesiwn
- darparu hyfforddiant lleferydd, iaith a chyfathrebu rheolaidd, wedi'i ailadrodd a chynnal gwaith dilynol arno i ddiwallu anghenion y gweithlu gofal plant sy'n newid
- os gofynnir i weithlu'r blynyddoedd cynnar gwblhau hyfforddiant lleferydd, iaith a chyfathrebu a derbyn mwy o gyfrifoldebau am ymyriadau, dylid adlewyrchu hyn yn eu taliad cydnabyddiaeth.
- mwy o eglurder am y trefniadau mentora ar gyfer staff sydd newydd gymhwyso (CCPLD).
- mae angen i ymarferwyr mewn lleoliadau Saesneg gael hyfforddiant ar sut i gyflwyno a chynorthwyo datblygiad sgiliau Cymraeg gyda phob plentyn.

**C4c. A oes unrhyw beth ar goll o'n cynlluniau i uwchsgilio'r gweithlu er mwyn diwallu anghenion lleferydd, iaith a chyfathrebu?**

Rhoddodd yr ymatebwyr amrywiaeth o atebion yn ymwneud â hyfforddi a chadw'r gweithlu, dulliau ymarfer, monitro a gwerthuso a chydweithio.

**Cwestiwn 5 – Llunio polisïau**

**5a. Ydych chi'n credu y byddwn yn gallu achosi newidiadau ac ysgogi gwelliannau ym maes lleferydd, iaith a chyfathrebu yn y blynyddoedd cynnar drwy lunio polisïau gwell?**

**Tabl 7.**

| YDW | NAC YDW | DDIM YN GWYBOD |
|---|---|---|
| 132 | 6 | 41 |
| 74% | 3% | 23% |

N=179

Roedd tua thri chwarter yn cytuno bod hyn yn bosibl.

Roedd yr argymhellion yn cynnwys:

- mwy o gysoni polisïau ar draws agendâu cysylltiedig
- adnoddau digonol o ran amser, arian ac adnoddau staff
- mwy o ganllawiau ar sut y mae Grant Amddifadedd Disgyblion Blynyddoedd Cynnar yn ymwneud â'r Grant Datblygu Disgyblion (sic)
- proffesiynoli a chyllido gweithlu'r blynyddoedd cynnar
- cyllid ar gyfer lleferydd, iaith a chyfathrebu o fewn cyfiawnder ieuenctid.
- defnyddio'r Dull Solihull i fynd i'r afael ag ACE
- defnyddio dull seiliedig ar chwarae ar gyfer y blynyddoedd cynnar.

**C5b. Ar wahân i'r rhai a nodwyd, oes unrhyw feysydd polisi eraill y dylem eu cynnwys yn ein cynllun?**

Tynnwyd sylw at amrywiaeth o feysydd polisi i'w cynnwys gan gwmpasu Iechyd a Llesiant, Mamolaeth a'r Blynyddoedd Cynnar, Addysg (gan gynnwys plant hŷn), Hawliau Plant, Cydraddoldeb, y Gymraeg ac Ieithoedd Cymunedol, Cynllunio Strategol ar gyfer Cydweithio.

**Cwestiwn 6 – Eglurder gwybodaeth**

**C6a/b. Ydy'r wybodaeth yn y trosolwg yn glir ac, os nad yw'n glir, sut y gellid ei gwella?**

Ar y cyfan, rhoddodd yr ymatebwyr sylwadau ar feysydd y gellid eu gwella.

Roedd yr argymhellion yn cynnwys:

- mae angen rhagor o fanylion, er enghraifft ar yr ymgyrch gyhoeddusrwydd, y rhaglen ar gyfer fersiwn ddigidol o'r negeseuon allweddol a logisteg pob ardal (e.e. sut y bydd lleferydd, iaith a chyfathrebu yn cael ei hyrwyddo a sut y bydd hyfforddiant yn cael ei weinyddu).
- mae angen cynnwys mwy o ystadegau fel data sy'n ymwneud â'r risg uchel o broblemau lleferydd, iaith a chyfathrebu ar gyfer babanod cynamserol a data ar niferoedd siaradwyr y gwahanol ieithoedd yng Nghymru.

**Cwestiwn 7 – Amcanion ychwanegol**

**C7. Ar wahân i'r pedwar amcan yn y cynllun cyflawni, oes unrhyw rai eraill y dylem eu cynnwys**?

Mae'r ymatebwyr yn argymell amcanion ar y canlynol:

- creu amgylcheddau iaith i gynorthwyo datblygiad lleferydd, iaith a chyfathrebu, yn ymwneud â lleoliadau yn y cartref, y blynyddoedd cynnar a'r ysgol
- trefniadau archwilio, cerrig milltir, canlyniadau, monitro a gwerthuso ar gyfer y pedwar amcan arall i gofnodi tystiolaeth o ganlyniadau
- annog cydweithio effeithiol
- cymorth i'r Gymraeg a chymorth ar gyfer llafaredd mewn cyd-destun uniaith, dwyieithog ac amlieithog.

**Cwestiwn 8 – Effaith ar y Gymraeg**

**C8. Hoffem wybod eich barn ar yr effeithiau y byddai'r cynllun cyflawni i hybu a chefnogi datblygiad lleferydd, iaith a chyfathrebu ymhellach ledled Cymru yn eu cael ar y Gymraeg, yn benodol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. Beth fyddai'r effeithiau, yn eich barn chi? Sut y gellid cynyddu effeithiau cadarnhaol, neu leihau effeithiau negyddol?**

Tynnodd rhai ymatebwyr sylw at effaith gadarnhaol bosibl y cynllun cyflawni gan gynnwys yr effeithiau cadarnhaol y gall dwyieithrwydd eu cael ar ymennydd datblygol plentyn ac effeithiau cadarnhaol posibl hyrwyddo'r Gymraeg a Chymru ddwyieithog.

Roedd yr argymhellion yn cynnwys:

- yr angen i ymgorffori cyfeiriadau at y Gymraeg drwy'r cynllun cyflawni
- eglurder ynghylch pa bolisïau yn y cynllun cyflawni sydd wedi bod yn destun asesiad effaith o ran y Gymraeg
- sicrhau bod digon o therapyddion lleferydd ac iaith sy'n siarad Cymraeg a gweithwyr proffesiynol perthnasol eraill i roi'r cynllun cyflawni ar waith yn effeithiol
- sicrhau bod yr holl ddogfennau a'r adnoddau sgrinio ac asesu yn cael eu cyfieithu i'r Gymraeg, a bod y Gymraeg yn cael ei defnyddio ar gyfer pob neges allweddol a chyhoeddusrwydd.

**Cwestiwn 9 – Defnyddio'r Gymraeg**

**C9. Esboniwch hefyd sut, yn eich barn chi, y gallai'r cynllun cyflawni arfaethedig i hybu a chefnogi datblygiad lleferydd, iaith a chyfathrebu ymhellach ledled Cymru gael ei lunio neu ei newid er mwyn cael effeithiau cadarnhaol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg heb fod yn llai ffafriol na'r Saesneg, ac atal unrhyw effeithiau andwyol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.**

Roedd yr argymhellion yn cynnwys:

- ymgynghori â Chomisiynydd y Gymraeg ar y mater hwn
- sicrhau bod gan fwy o weithwyr proffesiynol ddigon o sgiliau Cymraeg drwy, er enghraifft, hyfforddi siaradwyr Cymraeg mewn disgyblaethau perthnasol, a hyrwyddo cyrsiau lleferydd, iaith a chyfathrebu i fyfyrwyr Cymraeg eu hiaith
- cynyddu'r gefnogaeth i'r Gymraeg ymhlith rhieni a phlant fel cymhellion i rieni ddysgu Cymraeg ochr yn ochr â'u plant
- [Yn wahanol i'r cwestiwn] blaenoriaethu ieithoedd eraill mewn ardaloedd o Gymru lle mae'r Gymraeg yn llai amlwg (e.e. dull penodol i ardal yn seiliedig ar lefelau galw).

**Cwestiwn 10 – Materion eraill a godwyd**

**C10. Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol. Os oes gennych unrhyw faterion cysylltiedig nad ydym wedi ymdrin â nhw'n benodol, defnyddiwch y lle hwn i'w nodi** (Gofynnwyd i ymatebwyr yn y gweithdy i randdeiliaid pa negeseuon allweddol yr oeddent am adrodd yn ôl i Weinidogion Llywodraeth Cymru)

Cododd yr ymatebwyr nifer mawr o faterion, a oedd i raddau helaeth yn adlewyrchu pryderon a godwyd drwy'r adroddiad. Y pwyntiau eraill a wnaed, nad oeddent yn ymddangos mewn mannau eraill oedd:

- Sut y caiff y broses o weithredu'r gweithgareddau ei chyllido?
- Sicrhau bod lleferydd, iaith a chyfathrebu yn flaenoriaeth/ymrwymiad hirdymor, a gyllidir a thrawsadrannol i sicrhau cynaliadwyedd
- Peidiwch ag 'addysgoli' lleferydd, iaith a chyfathrebu. Mae'r mater hwn yn bwysig ar draws pob sector.
- Mae angen cytundeb trawsbleidiol yn y Senedd i sicrhau ymrwymiad hirdymor
- Canolbwyntio ar gynnwys tadau mewn lleferydd, iaith a chyfathrebu yn y blynyddoedd cynnar.
- Mae'r wybodaeth gyfyngedig ynghylch pwy fydd yn cynorthwyo darparwyr gofal plant y blynyddoedd cynnar nad ydynt yn dod o dan y cynlluniau a gyllidir gan yr awdurdod lleol yn bryder
- Ystyriwch oblygiadau cyflwyno'r gweithgareddau yn ardaloedd gwledig Cymru.
- Canolbwyntio ar iaith – mae angen i hyn gynnwys diffyg rhuglder.
- Bod yn fwy cyfarwyddol o ran dweud wrth leoliadau ac ysgolion i gynnwys lleferydd, iaith a chyfathrebu yn eu cwricwla.
- Cyflwyno Hyrwyddwyr Cyfathrebu.
- Mae angen ystyried y defnydd o TG a chymhorthion cyfathrebu yn y polisi hwn yn ogystal â'r holl ieithoedd a siaredir, ar arwyddion, lluniau a gwrthrychau y cyfeirir atynt. Mae angen mwy o bwyslais ar ddarllen hefyd.
- Mae hon yn fenter wych ar gyfer y blynyddoedd cynnar. Byddai'n fuddiol ymestyn y dull hwn hyd at 25 oed yn unol â'r Bil Anghenion Dysgu Ychwanegol.